SUL YN DILYN YR YSTWYLL / Y GWEDDNEWIDIAD

EXODUS 24:12-18; SALM 2;
2 PEDR 1:16-21; MATHEW 17:1-9

● **Gweddi agoriadol**
Down i'th bresenoldeb,
dy bobl yn cyfarfod i addoli
gyda'n hoffrwm o fawl
a beichiau ein calonnau.
Bendithia ein cymdeithas ynghyd
a'n mynd i'r byd,
a bydded i'r fendith a dderbyniwn
fod y fendith a rannwn gyda'n gilydd.

● **Moliant**
Ar ben y mynydd
datguddiwyd dy ogoniant
i Moses ac Israel
yn y cwmwl troellog
a'r tân ysol.
Ysgrifennwyd y gyfraith ar garreg a chalon,
a dechreuodd perthynas newydd.

Ar ben y mynydd
datguddiwyd dy ogoniant
i Pedr, Iago ac Ioan
mewn gweddnewidiad
a goleuni syfrdanol.

Ysgrifennwyd cariad ar galonnau cerrig,
a dechreuodd teyrnas newydd.

Ar ben y mynydd
datguddir dy ogoniant
ac ar lawr y dyffryn
gwelir dy drugaredd
mewn golau a gras.
Ar sylfeini felly
yr adeiledir
meini bywiol a chalonnau cariadus.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd,
am yr adegau hynny
pan nad yw'n geiriau yn gyson â'n ffydd.
Maddau i ni, Arglwydd,
am yr adegau hynny
pan nad yw'n gweithredoedd wedi'u gwreiddio
yn dy gariad a'th ras.

Meddala ein calonnau;
adfer y tân
a gofiwn ar y dechrau,
fel ble bynnag y teithiwn
y dyrchefir dy enw di
ym mhopeth a wnawn ac a ddywedwn.

● Diolch

Gellir clywed dy air uwchben sŵn
lleisiau taer ein byd.
Mae dy sibrwd hyd yn oed,
mwy miniog na chleddyf dau-finiog,
i'w deimlo
wrth dorri drwy ddryswch
doethineb dynol,
yn dwyn gwirionedd adre i'n calon.

Gellir clywed dy air
wrth i'r ysgrythur
lefaru'n eglur wrthym,
pan fydd lleisiau proffwydi
yr herio'r drefn sydd ohoni,
ac wrth i fyfyrdod tawel y weddi
wreiddio dy air ynom a hwnnw'n
tyfu a blodeuo yn ein calon.

Diolch i ti bod dy air i'w glywed!